

Prifysgol Bangor Cynllun Arsylwi Cydweithwyr

Beth yw'r Cynllun Arsylwi Cydweithwyr a pham rydym angen un?

Mae angen i Brifysgol Bangor adlewyrchu'r arfer gorau mewn addysgu a dysgu a nodwyd gan God Ansawdd y QAA i Addysg Uwch (Pennod B3)¹ a Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU ar gyfer Addysgu a Chefnogi Dysgu mewn Addysg Uwch (UKPSF)². Cydnabyddir bod arsylwi cydweithwyr yn addysgu yn ffordd ragorol o rannu arfer da yn unol â'r safonau hyn, ac o nodi meysydd lle mae angen cefnogaeth. Oherwydd hynny, cyflwynwyd arsylwi cydweithwyr ym Mangor yn 2001.

Trafod proffesiynol, nid proses feirniadol, yw arsylwi cydweithwyr. Mae'n gyfle i'r sawl a arsylwir a'r arsylwr i feddwl yn greadigol ynghylch datblygu arfer addysgol. Mae derbyn sylwadau gan gydweithiwr yn ymwneud ag addysgu, a gallu adfyfrio ar y broses yn gyffredinol, yn gyfrwng pwysig ar gyfer datblygiad academaidd proffesiynol.

Pwy sydd eu hangen i gymryd rhan yn y cynllun?

Mae Cynllun Arsylwi Cydweithwyr Bangor yn agored i holl staff sy'n addysgu ac/neu gefnogi dysgu. Disgwylir y bydd holl staff academaidd gyda swyddogaeth addysgu yn cymryd rhan yn y cynllun o leiaf unwaith bob blwyddyn academaidd. Mae hyn yn cynnwys darlithwyr rhan-amser ac ymarferwyr proffesiynol sy'n cyfrannu'n rheolaidd at addysgu. Caiff myfyrwyr PhD sy'n addysgu eu harsylwi fel rhan o'r angen iddynt wneud hyfforddiant penodol i'w Hysgol neu wneud y PgCertHE. Ni fydd angen i siaradwyr allanol gymryd rhan yn y cynllun llawn ond dylai arweinwyr modiwlau drefnu i gydweithiwr penodedig fynd i'w sesiynau a rhoi sylwadau ar lafar.

Pa fath o addysgu a arsylwir a phryd?

Mae hwn yn ddigwyddiad blynyddol, ac mae angen i staff gwblhau'r broses erbyn diwedd pob blwyddyn academaidd. Erbyn hyn mae'r cynllun yn cynnig dau ddewis. Mae'n eich galluogi naill ai i barhau â'r drefn a sefydlwyd o arsylwi sesiwn hyfforddedig fel pâr bob blwyddyn (Opsiw A) ac/neu gymryd rhan ar y cyd i wella maes ymarfer penodol (Opsiw B). Mae'r ddau opsiwn yn rhoi cyfle i chi gymryd rhan yn flynyddol mewn trafodaeth adeiladol gyda chydweithwyr ynghylch gwella'r ffordd mae myfyrwyr yn dysgu ac/neu brofiad ehangach myfyrwyr yn eich pwnc.

Mae angen i holl staff fod wedi cyflawni Opsiw A cyn gwneud Opsiw B mewn unrhyw gyfnod dwy flynedd. Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun newydd hwn (2017/18) bydd holl staff yn cymryd rhan yn Opsiw A yn y semester cyntaf. Dim ond o 2018/19 y bydd Opsiw B ar gael.

¹ <http://www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code/quality-code-part-b>

² <https://www.bangor.ac.uk/celt/documents/ukpsf.pdf>

Sut y rheolir y cynllun?

Caiff y cynllun ei weithredu gan Gyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu (CAaD) Ysgolion, a fydd yn gweithio'n agos â Phenaethiaid Ysgolion a fydd yn pennu staff i'r cynllun a chadw cofnod o ymwneud ag ef ar draws eu hysgol. Caiff ei gefnogi a'i fonitro'n ganolog gan y Ganolfan Gwella Addysgu a Dysgu (CELT) mewn cydweithrediad â Chyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu'r Colegau.

Canllawiau ar y broses i'r Arsylwr a'r Sawl a Arsylwir

1. Dylai pob cydweithiwr academiaidd gymryd rhan mewn o leiaf un sesiwn a arsylwir gan gydweithiwr ym mhob blwyddyn academiaidd.
2. Bydd CAaD ysgolion yn gyfrifol am oruchwylio a gweithredu'r cynllun a byddant yn pennu staff i barau/triawdau arsylwi cydweithwyr ar gyfer Opsiwn A. Pan weithredir Opsiwn B, bydd CAaD yn cytuno ar ffocws a chyfranogwyr y cynlluniau cydweithio arfaethedig. Mae canllawiau i Opsiwn B ynghlwm yn Atodiad 1.
3. Unwaith y cytunir arnynt, dylai'r parau ar gyfer Opsiwn A drefnu dyddiad ac amser cyfleus i arsylwi cydweithiwr.
4. Dylai'r Sawl a Arsylwir lenwi ffurflen 'Cyn Arsylwi Cydweithiwr' (**Rhan 1**) a'i hanfon at yr Arsylwr o leiaf wythnos cyn dyddiad yr arsylwi, ynghyd â chopi o unrhyw gynllun/nodiadau perthnasol am y sesiwn.
5. Yn ystod y sesiwn dylai'r arsylwr lenwi'r daflen Nodiadau Arsylwi (**Rhan 2**). Wrth roi sylwadau, efallai yr hoffa Arsylwyr gyfeirio at yr UKPSF. Trefnir y rhestr wirio adborth i adlewyrchu dimensiynau Disgrifydd 2 yr UKPSF (safon Cymrodoriaeth HEA).
6. Dylai'r sylwadau gael eu rhoi fel rhan o ddeialog gyda'r Sawl a Arsylwir cyn gynted â phosibl yn dilyn yr arsylwi. Bydd y ddau barti yn llofnodi a rhoi dyddiad ar Ran 2 y ffurflen yn dilyn y deialog. Nid oes ar y Coleg/Ysgol angen copi o Ran 2 y ffurflen. Argymhellir bod y Sawl a Arsylwir yn cadw copi fel rhan o'u portffolio proffesiynol a datblygiad eu hunain. Dylai'r Arsylwr anfon e-bost at Gyfarwyddwr Addysgu a Dysgu'r Ysgol i'w hysbysu bod yr arsylwi cydweithiwr wedi digwydd er mwyn galluogi i gofnod canolog gael ei gadw.
7. Yn dilyn arsylwi, dylai'r Sawl a Arsylwir a'r Arsylwr lenwi a chyfnewid 'Adfyfrio ar Ddeialog Cydweithwyr' (Rhan 3) a gallant gadw hwn i'w drosglwyddo i'w deialog PDR. Dylai'r Sawl a Arsylwir gyflwyno'r adran hon i CELT o fewn pythefnos ar ôl i'r arsylwi ddigwydd - ceir manylion sut i wneud hynny ar wefan CELT.

Rhan 1 (Sawl a Arsywlwr)

Ysgol

Cyn Arsywlwr Cydweithwyr

Dylai'r Sawl a Arsywlwr lenwi'r ffurflen hon a'i hanfon at yr Arsywlwr cyn y sesiwn .

Sawl a Arsywlwr

Arsywlwr

Dyddiad arsywlwr

Teitl y sesiwn

Modiwl

Lefel academaidd Nifer myfyrwyr

Math o weithgarwch e.e. darlith, seminar

Hyd y sesiwn Hyd y cyfnod arsywlwr

Deilliant/deilliannau dysgu i'r sesiwn hon.

Sut mae'r deilliannau dysgu yn gysylltiedig â Manyleb y Rhaglen yn gyffredinol a modiwlau eraill?

Agweddau arbennig y gofynnir am sylwadau arnynt (dewisol)

- 1.
- 2.
- 3.



Arsylwi ac Adborth

Nodiadau arsylwi: *Rhowch sylwadau ar y sesiwn yng nghyswllt y canlynol:*
A = Maes Gweithgaredd; K = Gwybodaeth Graidd; V = Gwerthoedd Proffesiynol

Agweddau i roi sylwadau arnynt	Sylwadau cyffredinol
A1 Paratoi a Chynllunio. Defnyddio adnoddau/Dysgu digidol	
A2 Dulliau addysgu Cysylltiadau i ddysgu blaenorol	
A3 Defnyddio asesu ac adborth ffurfiannol Cysylltiadau i ddysgu blaenorol	
A4 Amgylchedd dysgu a defnyddio lle	
A5 Addysgu a oleuwyd gan dystiolaeth. Cysylltiadau theori ac ymarfer	
K1 Gwybodaeth o ddeunydd pwnc	
K2 Dulliau priodol ar gyfer pwnc a lefel Cynnwys / Cyflwyno / Cyflymder / Fframwaith	
K2 Eglurder deilliannau dysgu'r sesiwn a'r graddau y cawsant eu cyflawni	
K3 Ymwneud â chyflogwyr a rhyngweithio â diwydiant a masnach	
V1 Cyflawni anghenion unigol ac amrywiol myfyrwyr (yn cynnwys anabledd, ond heb ei gyfyngu i hynny)	
V2 Hyrwyddo cyfranogiad a chydaddoldeb cyfle	
Eraill fel bo'n berthnasol ac a nodir/geisir gan y Sawl a Arsylwir Eraill fel bo'n berthnasol ac a nodwyd gan yr Arsylwr	



Crynowch y pwyntiau allweddol o'ch arsylwad i'w trafod â'ch cydweithiwr.

Agweddau cadarnhaol cyffredinol a chryfderau'r sesiwn
Awgrymiadau ar gyfer gwella a chryfhau addysgu a dysgu

Enwau	Llofnodion	Dyddiad
<i>Arsylwr</i>		
_____	_____	_____
<i>Sawl a Arsyllwir</i>		



Rhan 3 Sawl a Arsylwir ac Arsylwr

Adfyfrio ar Ddeialog Cydweithwyr

Bydd y ddau barti'n cyfnewid ystyriaethau ar ganlyniad yr arsylwi cydweithiwr, a nodi pwyntiau gweithredu / datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Dylai'r ffurflen hon wedyn gael ei chyflwyno i CELT fel cofnod o'r digwyddiad, ac fel y gall arfer da a meysydd i'w gwella gael eu lledaenu ar draws y brifysgol.

Argymhellir bod yr ystyriaethau personol hyn, ynghyd â Rhan 1 a Rhan 2 y ffurflen, yn cael eu cadw ym mhortffolios personol y Sawl a Arsylwir a'r Arsylwr i'w defnyddio fel y dymunant mewn Adolygiad Datblygiad Perfformiad.

Teimladau a meddyliau cychwynnol yn ymwneud â sylwadau cyffredinol yr Arsylwr a hunan-asesiad:	
Gwerthusiad o'r sesiwn ar sail sylwadau'r Arsylwr a hunan-asesiad:	
Cynllun Gweithredu / DPP	

Meddyliau'r Arsylwr

Ydi arsylwi/deialog gyda'r cydweithiwr hwn wedi dylanwadu ar syniadau ynghylch eich arfer addysgu eich hun?	
Os felly, sut fyddwch yn newid eich dull gweithredu'n dilyn yr arsylwi hwn?	

Enwau	Llofnodion	Dyddiad
Sawl a Arsylwir		
Arsylwr		



Atodiad 1 Trosolwg a dulliau arsylwi a argymhellir.

Opsiwn A: Arsylwi Addysgu mewn Pâr (2017/18)

1. Anogir CAAD i ddewis partneriaid newydd ar gyfer y Deialog Cydweithwyr bob blwyddyn academiaidd, fel y gallant bwysu ar arbenigedd cydweithwyr amrywiol a chyfrannu atynt.
2. Wrth gysylltu â'r cydweithiwr y cawsoch eich paru ag ef/â hi, nodwch un neu fwy o agweddau ar addysgu wyneb yn wyneb yr hoffech sylwadau arnynt. Cynlluniwch i ymweld â sesiynau addysgu eich gilydd a chyfnwid y ffurflen Rhan 1.
3. Treuliwch amser yn paratoi cyn y sesiwn. Bydd yn fuddiol iawn os ydych yn deall cyd-destun addysgu eich gilydd ac amcan a chynnwys y sesiwn neilltuoel
4. Wrth arsylwi, gwnewch nodiadau ar yr hyn y byddwch yn ei fwydo'n ôl i'ch cydweithiwr a'r hyn y gellwch chi ei gymhwyso at eich addysgu/cynllunio cwrs eich hun. Arsylwch sut mae'r myfyrwyr yn ymateb i'r sesiwn.
5. Trafodwch wedyn mewn ffordd adeiladol, gan edrych ar sut y gall eich ymarfer gael ei wella o'r ddwy ochr. Dechreuwch â chryfderau ac yna pwysleiswch feysydd datblygu a argymhellir. Llenwch Ran 2 y ffurflen ac yna ei llofnodi ill dau. Dylai'r Arsylwr anfon e-bost at y CAAD i gadarnhau bod yr arsylwi wedi digwydd.
6. Mae'r ddau'n llenwi'r Adfyfrio ar Ddeialog Cydweithwyr (Rhan 3) gan grynhoi unrhyw newidiadau neu DPP a fwriadwch yn dilyn y deialog â chydweithiwr. Anfonwch gopi wedi'i lofnodi o Ran 3 at y CAAD. Cadwch eich cofnod eich hun o'r arsylwi ar gyfer trosglwyddo/trafodaeth mewn Adolygiad Datblygu Perfformiad.

Opsiwn B: Cydweithio i wella maes ymarfer penodol (2018/19) Cydweithwyr yn gweithio mewn deuoedd, trioedd neu grwpiau bach (yr un pwnc NEU glystyrau rhyngddisgyblaethol a bennir gan Gyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu).

1. Nodi maes i'w ddatblygu yn y flwyddyn academiaidd; er enghraifft, dulliau asesu; adborth i fyfyrwyr; deunyddiau ac adnoddau e-ddysgu; addysgu cynhwysol i grwpiau amrywiol; addysgu wedi'i seilio ar ymchwil. Cytunwch ar y ffocws gyda'ch CAAD.
2. Cefnogwch y naill a'r llall drwy:
 - a. ymweld â sesiynau addysgu eich gilydd, ac/neu
 - b. astudio cynllun cwrs: cynlluniau sesiwn wyneb yn wyneb; modiwlau; rhaglenni astudio; cynllun gweithgareddau dysgu ar-lein, ac/neu
 - c. adolygu maes ymarfer ehangach i'w ddatblygu.
3. Cytunwch ar eich dulliau ymdrin â gwella.
4. Rhowch gynnig ar y dulliau gweithredu newydd ac yna dewch at eich gilydd i'w hadolygu.
5. Ysgrifennwch ddarn byr iawn (50 - 150 gair) am yr hyn rydych wedi'i wneud, sut mae eich dulliau gweithredu wedi datblygu a'r effaith mae hyn wedi'i chael ar eich datblygiad proffesiynol a'r ffordd mae myfyrwyr yn dysgu a chyfranogi.
6. Anfonwch gopi o'ch adroddiad at eich CAAD a chadwch gopi ar gyfer eich cofnodion eich hunain a thrafodaethau Adolygiad Datblygu Perfformiad.

Dilyniant i Ddeialog Cydweithwyr (Opsiynau A a B)

Fe'ch gwahoddir i wneud y canlynol:

- Cyflwyno a thrafod eich disgrifiad o'r Ddeialog Cydweithwyr yn eich ADP.
- Defnyddio tystiolaeth o'ch gweithgaredd arsylwi i ddatblygu cais ar gyfer F/SFHEA drwy Gynllun DPP Bangor.
- Cyflwyno eich gwaith ar wella arferion i bwyllgor addysgu eich adran
- Rhannu â phwyllgor addysgu eich adran unrhyw faterion generig sy'n codi, er enghraifft awgrymiadau am newidiadau i ddefnyddio lle ac/neu dechnoleg
- Datblygu astudiaeth achos ar gyfer Rhaglen DPP CELT ac/neu Gynhadledd CELT.
- Rhannu eich datblygiadau â chydweithwyr tu hwnt i'ch coleg/ysgol, e.e. yr Awdurdod Addysg Uwch

I gael gwybodaeth neu arweiniad pellach ar sut i gymryd rhan yng Nghynllun Arsylwi Cydweithwyr ym Mangor, cysylltwch â Chyfarwyddwr Addysgu a Dysgu eich Ysgol neu **celt@bangor.ac.uk**